NEGESEUON ALLWEDDOL BWRDD DIOGELU OEDOLION GOGLEDD CYMRU

O'r cyfarfod a gynhaliwyd ar ddydd Iau

16 Ionawr 2020

- Bwrdd wedi derbyn golwg cyffredinol o Weithdrefnau Diogelu Cymru newydd a'r themâu allweddol a'r heriau i asiantaethau fod yn ymwybodol ohonynt. Gweithdrefnau i'w gweithredu erbyn 6 Ebrill 2020. Aelodau Bwrdd wedi cytuno i fabwysiadu'r gweithdrefnau yn ffurfiol.

- Hyfforddiant Diogelu ar gyfer Gwasanaethau wedi'u Comisiynu – mae'r Grŵp Hyfforddi a Datblygu Gweithlu'r Bwrdd Diogelu ar y Cyd wedi bod yn gweithio ar gynllun peilot hyfforddi a fydd yn galluogi darparwyr i hyfforddi'n fewnol. Cytunodd aelodau i enwebu asiantaethau darparu a fyddai o bosib yn gallu cymryd rhan.

- Cynhadledd Diogelu Genedlaethol – Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl yn cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru ar 6 Chwefror yn Wrecsam gan ganolbwyntio ar Oedolion mewn Perygl. Gweithdai amrywiol yn cael eu cynnal a'u rhedeg gan amryw o asiantaethau yn cynnwys Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru.

- Derbyniwyd diweddariad gan y Bwrdd ar gynnydd parhaus cynllun gweithredu BIPBC a ddatblygwyd ar ôl derbyn adroddiad gan y Gwasanaeth Cynghori ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol (HASCAS) ar Tawelfan.